# Arolygiad Dilynol o Bractis Deintyddol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Deintyddfa Wyecliffe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad arolygu: 20 Mehefin 2019

Dyddiad cyhoeddi: 18 Medi 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@gov.wales**

**Gwefan:** **www.agic.org.uk**

ISBN Digidol 978-1-83933-208-1

© Hawlfraint y Goron 2019

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom .................................................. 5

2. Crynodeb o'n harolygiad .................................................. 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym .................................................. 7

   Ansawdd profiad y claf .................................................. 8

   Darparu gofal diogel ac effeithiol .................................................. 12

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .................................................. 20

4. Beth nesaf? .................................................. 23

5. Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol .................................................. 24

   Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .................................................. 25

   Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol .................................................. 26

   Atodiad C – Cynllun gwella .............................. **Error! Bookmark not defined.**7

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da**

# Ein gwerthoedd

**Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:**

- **Annibynnol**
- **Gwrthrychol**
- **Gofalgar**
- **Cydweithredol**
- **Awdurdodol**

# Ein blaenoriaethau

**Drwy ein gwaith, ein nod yw:**

| | |
|---|---|
| **Rhoi sicrwydd:** | **Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dilynol lle rhoddwyd rhybudd o Ddeintyddfa Wyecliffe St. James Field, Pont-y-pŵl, NP4 6JT, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ar 20 Mehefin 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau dilynol yn Adran 5.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ers ei arolygiad diwethaf yn 2018, gwelsom fod Deintyddfa Wyecliffe wedi rhoi gwelliannau sylweddol ar waith er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Gwelsom dystiolaeth bod Deintyddfa Wyecliffe yn darparu gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol i'w gleifion.

Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth da ac erbyn hyn roedd y polisïau a'r gweithdrefnau gofynnol ar waith yn y practis i gefnogi'r cleifion a'r staff.

Roedd y deintyddfeydd yn cael eu cadw i safon dda, yn ogystal â'r ardaloedd aros.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd tystiolaeth bod rheolwr cofrestredig y practis yn rheoli ac yn arwain yn dda.
- Roedd trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod y deintyddfeydd yn cael eu cadw i safon dda.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y byriau wedi'u sterileiddio yn cael eu rhoi mewn bagiau ar ôl eu defnyddio.
- Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod pob ardal yn y deintyddfeydd yn cael ei glanhau'n rheolaidd.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Cefndir y gwasanaeth

Cynhaliodd AGIC ei harolygiad diwethaf o Ddeintyddfa Wyecliffe ar 24 Gorffennaf 2018.

Roedd y meysydd allweddol i'w gwella a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- Cadw amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a nodir yn y Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat er mwyn amddiffyn y staff a'r cleifion.
- Sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfarpar yn cael eu cynnal a'u cadw yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM01-05).
- Sicrhau bod yr holl staff priodol wedi cael hyfforddiant digonol mewn meysydd megis rheoli heintiau, diogelwch tân ac iechyd a diogelwch.

Diben yr arolygiad hwn oedd gwneud gwaith dilynol ar y gwelliannau uchod a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf.

## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwelsom fod Deintyddfa Wyecliffe wedi ymrwymo i sicrhau bod yr arferion yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Roedd gan y practis amrywiaeth o wybodaeth i roi cymorth i gleifion i wneud dewisiadau da ynglŷn ag iechyd da y geg ac opsiynau triniaeth yn ôl yr angen. Roedd yr awyrgylch yn groesawgar, a gwelsom fod y staff yn gwneud ymdrech i wneud i'r cleifion ymlacio a theimlo'n gartrefol o'r eiliad yr oeddent yn cyrraedd.

### Pa welliannau a nodwyd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

#### Hybu, Diogelu a Gwella Iechyd

- Darparu taflenni hybu hylendid ac iechyd y geg, fel y gall cleifion eu darllen a mynd â nhw adref gyda nhw.

#### Gofal gydag Urddas

- Gosod sgrin breifatrwydd farugog ar ran isaf y ffenestr yn y ddeintyddfa ar y llawr daear.
- Arddangos safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y tîm deintyddol yn ardal aros y dderbynfa.

#### Gwybodaeth i gleifion

- Cynnwys y trefniadau ar gyfer ymdrin â chleifion sy'n ymddwyn yn dreisgar neu'n ymosodol tuag at staff yn y daflen wybodaeth i gleifion.
- Darparu taflenni gwybodaeth y practis ar gyfer cleifion yn yr ardal aros.

#### Cyfathrebu'n effeithiol

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi gwybod i holl staff y practis am linell iaith y Bwrdd Iechyd.

### Gwrando ar adborth a dysgu ohono

- Sicrhau bod taflen Gweithio i Wella GIG Cymru[1] ar gael i gleifion yn yr ardal aros.
- Y practis i roi proses ffurfiol, reolaidd ar waith i gael adborth gan gleifion. Os caiff newidiadau eu gwneud o ganlyniad i'r adborth, dylid hysbysu'r cleifion am hyn.

## Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella dyddiedig 04/10/2018:

### Hybu, Diogelu a Gwella Iechyd

- Taflenni wedi cael eu cynhyrchu a'u gosod yn yr ystafell aros – cânt eu gwirio bob dydd a'u hail-lenwi os oes angen.

### Gofal gydag Urddas

- Gosod plastig gludiog, barugog ar ran isaf y ffenestri yn y ddeintyddfa ar y llawr daear a chadarnhau nad oes modd gweld unrhyw un sy'n cael triniaeth yn y ddeintyddfa.
- Mae'r safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y tîm deintyddol wedi'u harddangos ar yr hysbysfwrdd yn yr ystafell aros.

### Gwybodaeth i gleifion

- Mae'r trefniadau hyn bellach wedi'u cynnwys yn y Daflen Wybodaeth i Gleifion. Mae taflenni gwybodaeth y practis ar gael yn yr ystafell aros a chânt eu gwirio bob dydd a'u hail-lenwi os oes angen.

### Cyfathrebu'n effeithiol

[1] Gweithio i Wella GIG yw'r broses ar gyfer rheoli pryderon yn GIG Cymru.

- Mae pob aelod o staff wedi cael gwybod am y llinell iaith ac wedi cael siart llif ar gyfer cysylltu â'r gwasanaeth hwn. Rhaeadru gwybodaeth drwy'r practis. Mae'r siart llif ym mhob deintyddfa fel y gellir cyfeirio ato yn ôl yr angen.

### Gwrando ar adborth a dysgu ohono

- Sicrhau bod taflen Gweithio i Wella GIG Cymru ar gael i gleifion yn yr ardal aros.
- Y practis i roi proses ffurfiol, reolaidd ar waith i gael adborth gan gleifion. Os caiff newidiadau eu gwneud o ganlyniad i'r adborth, dylid hysbysu'r cleifion am hyn.

## Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

### Hybu, Diogelu a Gwella Iechyd

Gwelsom fod amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd ar gael i'r cleifion yn yr ystafell aros, a oedd yn cynnwys gwybodaeth ar iechyd da y geg, mesurau atal ar gyfer plant ac oedolion, a gwybodaeth am driniaethau a phroblemau deintyddol cyffredin.

### Gofal ag Urddas

Gwelsom fod y paneli gwydr barugog ar y ffenestri ar flaen y ddeintyddfa'n rhoi digon o breifatrwydd i gleifion er mwyn sicrhau y darperir gofal ag urddas.

Roedd safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i'w gweld yn glir yn yr ardal aros.

### Gwybodaeth i gleifion

Roedd gwybodaeth am reoli cleifion sy'n dreisgar neu'n ymosodol wedi'i chynnwys yn y Daflen Wybodaeth i Gleifion, ynghyd â'r broses i'w dilyn. Roedd taflenni gwybodaeth y practis ar gael yn yr ystafell aros a chânt eu gwirio bob dydd a'u hail-lenwi os oes angen

### Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r llinell iaith, ac roedd siart llif ar waith i helpu'r staff cymorth a'r cleifion wrth gyfathrebu drwy ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.

### Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Roedd taflen Gweithio i Wella GIG Cymru ar gael i gleifion yn yr ardal aros.

Gwelsom fod gan y practis broses adborth gynhwysfawr ar waith a gwelsom dystiolaeth fod yr adborth yn cael ei archwilio'n rheolaidd a'i ystyried mewn cyfarfodydd tîm.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Mae'r practis wedi cymryd camau gweithredu sylweddol yn erbyn y cynllun gwella diwethaf.

Gwelsom fod y cyfleusterau clinigol yn cynnwys adnoddau digonol a bod trefniadau ar waith i drin cleifion yn ddiogel. Gwelsom hefyd fod y practis mewn cyflwr da.

Mae'n rhaid i'r practis gael gwared ar yr annibendod o'r lloriau yn y deintyddfeydd.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

### Pa welliannau a nodwyd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Nid yw'r rheolwr cofrestredig yn dilyn arfer clinigol diogel drwy beidio â gweithredu'r holl bolisïau a gweithdrefnau sy'n ofynnol o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017[2].
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig baratoi a gweithredu polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer:
    - Y trefniadau ar gyfer derbyn cleifion.
    - Y trefniadau ar gyfer asesu, diagnosio a thrin cleifion.
    - Sicrhau bod y safle a ddefnyddir i gynnal y practis deintyddol preifat yn addas at y diben hwnnw bob amser

---

[2]Mae'r **Rheoliadau**'n berthnasol mewn perthynas â phobl sy'n parhau i weithredu neu reoli darpariaeth o wasanaethau **deintyddol breifat** gan **ddeintydd**, neu wasanaethau proffesiynol perthnasol gan weithiwr proffesiynol **gofal deintyddol**.

- Monitro ansawdd ac addasrwydd cyfleusterau ac offer, gan gynnwys cynnal a chadw offer o'r fath.
- Darparu gwybodaeth i gleifion ac eraill, gan gynnwys hysbysiadau clir i gleifion am unrhyw ffioedd sy'n daladwy am wasanaethau deintyddol preifat
- Recriwtio, sefydlu a chadw cyflogeion, eu hamodau cyflogaeth a'u gofynion hyfforddiant
- Sicrhau bod staff yn cael eu recriwtio mewn ffordd ddiogel gan gynnwys cynnal gwiriadau sy'n briodol i'r gwaith y bydd y staff yn ei wneud
- Pan gaiff gwaith ymchwil ei gynnal mewn practis deintyddol preifat, sicrhau y caiff ei gynnal gyda chydsyniad unrhyw glaf neu gleifion dan sylw, ei fod yn briodol i'r practis dan sylw ac y caiff ei gynnal yn unol ag unrhyw ganllawiau cyfredol ac awdurdodol cyhoeddedig ar gynnal prosiectau ymchwil
- Archebu a chofnodi meddyginiaethau a rhoi a chyflenwi meddyginiaethau i gleifion
- Y trefniadau ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol

## Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella:

- Mae Cynghorydd Meddygol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi cysylltu â Rheolwr y Practis i drefnu ymweliad
- Polisïau wedi'u cwblhau a'u gweithredu

## Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Gwelsom dystiolaeth fod yr holl bolisïau a gafodd eu hepgor yn flaenorol ar waith erbyn hyn a bod yr holl staff yn cytuno â nhw.

### Atal a rheoli heintiau

## Pa welliannau a nodwyd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Bod y cleifion yn cael eu hamddiffyn rhag risgiau adnabyddadwy sy'n ymwneud â dal haint sy'n gysylltiedig â gofal iechyd
- Bod safonau glendid a hylendid priodol yn cael eu cynnal ar gyfer y canlynol:
  - Offer a dyfeisiau meddygol amldro a ddefnyddir at ddiben cynnal y practis deintyddol preifat

    - Deunyddiau i'w defnyddio i drin defnyddwyr gwasanaeth, pan fo risg bod y deunyddiau hynny wedi'u halogi
- Gosod bin gwaredu deunyddiau misglwyf addas yn nhoiled y staff a thoiled y cleifion
- Gosod basn golchi dwylo yn y toiled ar y llawr daear
- Gosod pob bin offer miniog yn sownd wrth wal neu'i storio'n ddiogel mewn crud neu stand
- Pob aelod o staff i gael hyfforddiant rheoli heintiau cyn gynted â phosibl
- Y practis i gynnal archwiliadau rheolaidd ac yn benodol archwiliad WHTM 01-05, a chyflwyno'r rhain fel y bo'n berthnasol
- Selio'r llawr o gwmpas y waliau, yr unedau llawr gosodedig a'r cadeiriau deintyddol ym mhob deintyddfa, fel y bo'n berthnasol
- Cadw'r biniau gwastraff clinigol allanol ar glo bob amser a'u diogelu fel na ellir eu symud yn hawdd o'r practis.

## Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella:

- Bydd Arweinydd Clinigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn trefnu ymweld â'r practis er mwyn cynnal archwiliad â'r Uwch Nyrs Ddeintyddol
- Mae biniau gwaredu deunyddiau misglwyf ar gael yn nhoiled y staff a thoiled y cleifion. Mae gennym gontract ag Initial Medical i'w gwaredu. Mae plymer lleol wedi cael ei gomisiynu i osod y basn golchi dwylo. Nes caiff y basn hwn ei osod, gofynnir i'r staff ddefnyddio'r Desderman Pure Gel sydd ar silff ffenestr yr ystafell cyn gadael y toiled a defnyddio'r cyfleusterau golchi y tu allan i'r drws. Mae pob aelod o'r staff bellach wedi cofrestru â gwefannau E-Ddysgu GIG Cymru ac Isopharm fel y gallant gwblhau hyfforddiant ar-lein. Mae pob aelod o'r staff nad oeddent wedi cael hyfforddiant Diogelwch Tân bellach wedi cwblhau'r cwrs Diogelwch Tân a ddarperir gan E-Ddysgu GIG Cymru. Mae'r biniau gwastraff clinigol allanol wedi'u clymu'n sownd i'w gilydd â chadwyni a chlo clap. Maent wedi'u diogelu mewn ffordd sy'n golygu na ellir agor y bin y mae ei glo wedi torri heb ddatgloi'r gadwyn a'r clo clap. Mae ein contractwr gwastraff clinigol, SRCL Ltd, wedi cyflenwi bracedi wal penodol SafeClip a'u gosod ym mhob meddygfa.
- Er bod gan bob aelod o staff dystysgrifau dilys ar gyfer hyfforddiant Rheoli Heintiau, roedd un ar goll ar ddiwrnod yr arolygiad, ond mae'r dystysgrif hon bellach ar gael. Mae pob aelod o staff bellach wedi cofrestru â gwefannau E-Ddysgu GIG Cymru ac Isopharm ar gyfer cyrsiau ar-lein. Cysylltwyd â Deoniaeth Cymru i ganfod a fyddai modd i ni gyflwyno'r archwiliad WHTM 01-05 a gynhaliwyd gennym eisoes neu a oes angen i ni ailgofrestru. Rydym hefyd

wedi argraffu'r Clinical Audit and Peer Review for Dental Teams in Wales – Cookbook gan Ddeoniaeth Cymru er mwyn ein helpu gydag archwiliadau clinigol yn y dyfodol
- Rydym wedi archwilio pob deintyddfa i sicrhau bod pob arwyneb wedi'i selio, fel sy'n ofynnol. Byddwn yn gwirio hyn bob bore dydd Mawrth fel rhan o archwiliad rheolaidd y practis ac yn nodi unrhyw broblem ac yn cymryd camau gweithredu priodol fel yn achos unrhyw gamau gweithredu eraill sydd eu hangen.

## Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Nodwyd gennym fod y bwrdd iechyd wedi ymweld â'r practis i gefnogi'r gwelliannau sydd eu hangen.

Nodwyd gennym fod y byriau[3] yn cael eu rhoi nôl i mewn i'r bocsys ar ôl cael eu sterileiddio, a gwnaethom argymell fod yn rhaid rhoi'r rhain mewn bagiau di-haint a nodi'r dyddiad dod i ben arnynt.

Roedd y practis wedi rhoi bin caead siglo yn y toiled ar gyfer gwastraff misglwyf. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori'r practis bod yn rhaid iddynt gael bin gwastraff misglwyf a bod contractwr cymeradwy yn rheoli casgliadau. Archebwyd bin gwaredu deunyddiau misglwyf ar unwaith, a gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi'i dderbyn. Mae basn golchi dwylo hefyd wedi cael ei osod yn yr ystafell ymolchi.

Erbyn hyn, roedd biniau ar gyfer offer miniog wedi cael eu gosod yn sownd wrth y wal yn y deintyddfeydd. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi ymgymryd â hyfforddiant rheoli heintiau, a bod WHTM 01-05 wedi'i gwblhau.

Gwelsom fod lloriau'r practis bellach wedi'u selio er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Fodd bynnag, roedd y llawr yn y ddeintyddfa flaen yn llychlyd oherwydd eitemau megis bwrdd a stereo nad oeddent wedi cael eu glanhau'n briodol. Argymhellwyd y dylid codi'r stereo oddi ar y llawr fel nad yw'n rhwystro'r feddygfa rhag cael ei glanhau'n effeithiol.

---

[3]Byriau deintyddol. Caiff byriau deintyddol eu defnyddio i dorri meinweoedd caled yn y geg.

Gwelsom fod trefniadau gwirio dyddiol yr ardaloedd clinigol ar waith ac yn cael eu dilyn. Gwelsom hefyd fod cofnodion ar gyfer gwirio perfformiad yr awtoclaf yn rheolaidd yn cael eu cadw, gan sicrhau bod y cyfarpar yn cael ei sterileiddio’n effeithiol.

Gwelsom hefyd fod biniau gwastraff clinigol wedi'u gosod yn ddiogel yng nghefn y ddeintyddfa.

Yn olaf, gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant digonol o ran rheoli heintiau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid rhoi'r byriau mewn bagiau di-haint a nodi'r dyddiad dod i ben arnynt ar ôl iddynt gael eu stireleiddio.

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau nad oes annibendod yn y ddeintyddfa flaen er mwyn ei glanhau'n effeithiol.

### Rheoli meddyginiaethau

## Pa welliannau a nodwyd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o staff yn gwybod sut i roi gwybod am unrhyw adweithiau niweidiol i feddyginiaethau neu ddyfeisiau meddygol drwy Gynllun Cerdyn Melyn MHRA[4]
- Rhoi proses gadarn ar waith i sicrhau y gall staff gael gafael ar y canllawiau diweddaraf mwyaf perthnasol, rhybuddion diogelwch a chyfleoedd datblygu sydd eu hangen ar gyfer y practis, a'u bod yn ymwybodol ohonynt

[4] Y Cynllun Cerdyn Melyn yw'r system a gaiff ei defnyddio yn y DU ar gyfer casglu gwybodaeth am adweithiau niweidiol a amheuir i feddyginiaethau.

- Datblygu polisi ar ragnodi gwrthfiotigau a ddylai gynnwys y broses ymgynghori feddygol a phroses ymgynghori'r claf a chyfrifoldeb perthnasol y rhagnodwr.

## Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Rydym wedi lawrlwytho posteri o Yellowcard.MHRA.gov.uk ac wedi gosod un ar hysbysfwrdd pob deintyddfa a'r hysbysfwrdd yn yr ystafell aros. Argraffwyd cerdyn gwybodaeth a chanllawiau adrodd ar gyfer pob deintyddfa a'r dderbynfa a chawsant eu rhannu â phob aelod o staff. Ychwanegwyd llwybr byr at Yellowcard.MHRA.gov.uk at fwrdd gwaith y cyfrifiaduron yn y deintyddfeydd a'r dderbynfa a hysbyswyd pob aelod o staff. Cedwir copïau yn y ffeil Iechyd a Diogelwch, gan gynnwys copïau papur o ffurflenni adrodd
- Mae proses ar waith i sicrhau y caiff yr holl wybodaeth a ddaw i law ei rhannu â'r holl staff a'i chofnodi mewn ffeil benodol sy'n dangos enw pob aelod o staff sydd wedi cael y wybodaeth. Caiff yr holl wybodaeth – gan gynnwys negeseuon e-bost – ei hargraffu a'i rhoi i bob aelod o staff. Mae polisi bellach ar waith sy'n nodi'r broses ar gyfer proffylacsis gwrthfiotig ynghyd â ffurflen gydsyniad i'r claf os cytunwyd ar broffylacsis gwrthfiotig â chardiolegydd y claf

## Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Gwelsom hefyd fod y practis wedi deall cynllun Cerdyn Melyn MHR ac roedd gwybodaeth mewn perthynas â rhoi gwybod am unrhyw adweithiau niweidiol ar gael yn hawdd i bob aelod o'r staff yn ardal y dderbynfa.

### Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

## Pa welliannau a nodwyd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Nid oedd y practis yn darparu gwasanaeth o ansawdd derbyniol, fel sy'n ofynnol. Felly, rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:
    - Bod yr holl offer a ddefnyddir yn y practis deintyddol preifat neu at ddibenion y practis deintyddol preifat yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben y caiff ei ddefnyddio.

## Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella:

- Mae Arweinydd Clinigol Ansawdd a Diogelwch Cleifion (QPS) Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi cysylltu ac wedi trafod y camau sydd eisoes wedi'u cymryd gyda'r Uwch Nyrs Ddeintyddol
- Mae'r holl offer/deunyddiau a oedd wedi mynd heibio i'w dyddiad dod i ben wedi cael eu symud o'r ystafelloedd clinigol a'r storfeydd
- Mae proses wirio a chofnodlyfr bellach ar waith ar gyfer yr holl offer/deunyddiau clinigol a ddefnyddir. Y Nyrsys Deintyddol sy'n gyfrifol am hyn nawr.
- Ni chaiff byriau diemwnt untro eu hailddefnyddio ac ni chânt eu harchebu mwyach. Bydd unrhyw rai a archebwyd drwy gamgymeriad yn cael eu gwaredu ar unwaith. Mae clytiau antiseptig a chynwysyddion newydd wedi cael eu harchebu a chaiff y dyddiad dod i ben ei labelu arnynt.
- Caiff llafnau llawfeddygol eu cadw nawr yn y pecynnau gwreiddiol ac nid yn yr handlenni. Byriau Diemwnt, fel uchod.

## Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Gwnaethom edrych ar sampl o ddeunyddiau a chyfarpar deintyddol yn ystod yr arolygiad a chanfod eu bod o fewn eu dyddiadau dod i ben. Gwelsom dystiolaeth fod prosesau gwirio stoc ar waith ac yn gweithio'n effeithiol. Gwelsom hefyd fod cofnod wedi'i roi ar waith er mwyn sicrhau bod yr holl gyfarpar yn y practis yn cael ei wirio'n rheolaidd. Roeddem yn fodlon bod y cyfarpar a ddefnyddir gan y practis yn ddiogel ac yn addas i'w ddefnyddio. Gwelsom fod cofnodion Prawf Ffoil y Glanhawyr Uwchsain[5] yn dangos efallai nad yw'r glanhawyr uwchsain yn gweithio ar y amledd cywir i sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf. Argymhellwn y dylai'r practis sicrhau bod y Glanhawyr Uwchsain yn gweithio yn unol â'r rhagofynion gofynnol.

---

[5]Mae peiriant glanhau uwchsain yn dileu halogyddion yn gyfan gwbl o wrthrychau yn gyflym drwy eu rhoi mewn tanc o hylif sy'n llawn o donau sain amledd uchel.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y glanhawr uwchsain yn gweithio yn unol â'r safon ofynnol ar gyfer glanhau offer a bod profion rheolaidd yn cael eu cynnal i sicrhau'r arfer hwn.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

#### Pa welliannau a nodwyd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Pob aelod o'r staff i gael hyfforddiant diogelwch tân cyn gynted â phosibl ac yn flynyddol wedi hynny
- Y ddau swyddog cymorth cyntaf penodedig i gael hyfforddiant cymorth cyntaf cyfredol (gan gynnwys hyfforddiant gloywi).

#### Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella:

- Mae pob aelod o'r staff bellach wedi cofrestru â gwefannau E-Ddysgu GIG Cymru ac Isopharm ar gyfer cyrsiau ar-lein
- Mae proses wedi cael ei rhoi ar waith i sicrhau bod pob aelod o staff yn cael arfarniad blynyddol. Mae rhybudd wedi'i drefnu ar gyfrifiadur y swyddfa a chyfrifiaduron y deintyddfeydd i hysbysu pob aelod o staff am ddyddiad ei arfarniad a bydd y dderbynfa'n dosbarthu'r ffurflenni arfarnu sydd eu hangen.

#### Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Gwelsom dystiolaeth bod hyfforddiant tân a chymorth cyntaf ar gael yn y practis.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

#### Pa welliannau a nodwyd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Rhaid rhoi proses ar waith i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn y practis yn cael arfarniad blynyddol.
- Rhoi proses ar waith i'r deintyddion gynnal adolygiadau cymheiriaid rheolaidd o gofnodion clinigol ei gilydd a radioleg.

### Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella:

- Mae proses wedi cael ei rhoi ar waith i'r deintyddion gynnal adolygiadau cymheiriaid mewnol o gofnodion clinigol ei gilydd a radioleg ac ati. Mae rhybudd wedi'i drefnu ar gyfrifiadur y swyddfa i'r dderbynfa atgoffa pob deintydd ym mis Tachwedd [Bob blwyddyn] ac mae rhybudd wedi'i drefnu ar gyfrifiadur pob deintyddfa i hysbysu pob deintydd bod angen cynnal yr adolygiad cymheiriaid y mis canlynol. Mae'r Clinical Audit and Peer Review for Dental Teams in Wales Cookbook wedi cael ei lawrlwytho a'i argraffu er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o gynnal adolygiadau cymheiriaid ac archwiliadau clinigol, ac mae'r sampl archwilio o wefan Cymdeithas Ddeintyddol Prydain wedi cael ei lawrlwytho hefyd.

### Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Gwelsom dystiolaeth fod cyfarfodydd tîm cynhwysfawr yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau ac yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Yn ogystal, roedd adolygiadau gan gymheiriaid rheolaidd yn cael eu dogfennu rhwng y deintyddion er mwyn annog arfer gorau, ynghyd ag arfarniadau blynyddol.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Nodwyd gennym fod y gwelliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad cyntaf wedi'u cwblhau'n llawn, a bod y practis yn bodloni'r rhwymedigaethau o ran hyfforddi staff.

### Y Gweithlu

## Pa welliannau a nodwyd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Datblygu matrics hyfforddiant i sicrhau bod cofnod o hyfforddiant staff ar gael yn hawdd.

## Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella:

- Mae pob aelod o staff wedi cofrestru â gwefannau E-Ddysgu GIG Cymru a Max-Course Deoniaeth Cymru yn ogystal â gwefan dysgu ar-lein Isopharm. Mae taenlen wedi cael ei chreu ar gyfrifiadur y swyddfa a chaiff cofnod hyfforddiant pob aelod o'r staff ei gadw yn ffeil cofnodion DPP y practis hefyd.

## Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

Gwelsom fod y matrics hyfforddiant wedi'i roi ar waith, yn seiliedig ar y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth Deoniaeth[6] a chanllawiau arfer da

[6] Adnodd datblygu arfer i'r tîm deintyddol cyfan yw'r 'Maturity Matrix Dentistry' (MMD) sy'n helpu timau deintyddol i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion.

Cymdeithas Ddeintyddol Prydain[7]. Rydym yn annog y dylai'r practis ddefnyddio'r adnoddau hyn fel dwy enghraifft o ganllawiau cynhwysfawr ar gyfer ymarferion deintyddol er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r disgwyliadau sydd ohono yn ôl y gyfraith. Mae Deintyddfa Wyecliffe yn bodloni'r rhwymedigaethau ar gyfer hyfforddi'r gweithlu a nodir yn y Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat.

[7] Rhaglen sicrhau ansawdd yw cynllun Arfer Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain, sy'n galluogi ei haelodau i gyfleu ymrwymiad parhaus i weithio yn unol â safonau arfer da o ran cyfrifoldebau proffesiynol a chyfreithiol i'w cleifion.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol

Gall arolygiadau dilynol fod yn arolygiadau lle rhoddwyd rhybudd neu'n rhai dirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Diben ein harolygiadau dilynol yw gweld pa welliannau a wnaed gan y gwasanaeth ers ein harolygiad diwethaf.

Bydd ein harolygiadau dilynol yn canolbwyntio ar y meysydd penodol ar gyfer gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf. Mae hyn yn golygu mai dim ond ar Safonau Iechyd a Gofal 2015 sy'n berthnasol i'r meysydd hyn y byddwn yn canolbwyntio.

Yn ystod ein harolygiadau dilynol byddwn yn ystyried agweddau perthnasol ar y canlynol:

- Ansawdd profiad y claf
- Darparu gofal diogel ac effeithiol
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol. Byddwn hefyd yn tynnu sylw at unrhyw feysydd lle mae angen gwneud gwelliannau o hyd.

Ceir manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn | | | |

# Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

## Gwasanaeth: Deintyddfa Wyecliffe

## Dyddiad arolygu: 20 Mehefin 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn | | | | |

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth:

## Enw (llythrennau bras):

## Teitl swydd:

## Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Deintyddfa Wyecliffe

### Dyddiad arolygu: 20 Mehefin 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Darparu gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Rhaid rhoi'r byriau mewn bagiau di-haint a nodi'r dyddiad dod i ben arnynt ar ôl iddynt gael eu stireleiddio.<br><br>Mae'n rhaid i'r practis sicrhau nad oes annibendod yn y ddeintyddfa flaen er mwyn ei glanhau'n effeithiol. | 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi<br><br>WHTM 01-05 | Caiff y byriau eu rhoi mewn bagiau di-haint a stampio eu dyddiad dod i ben arnynt ar ôl iddynt gael eu stireleiddio.<br><br>Mae'r stereo a'r bwrdd coffi wedi'u symud o'r ddeintyddfa. Mae radio newydd wedi'i osod ar ben y cwpwrdd arddangos | Dr Sandra Wilkins<br><br>Dr Sandra Wilkins | Cwblhawyd<br><br>Cwblhawyd |
| Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y glanhawr uwchsain yn gweithio yn unol â'r safon ofynnol | 2.9 Dyfeisiau, offer a systemau | Mae'r glanhawr uwchsain wedi'i ddatgomisiynu. Mae gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar y ddau lanhawr | Dr Sandra Wilkins | Cwblhawyd |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| ar gyfer glanhau offer a bod profion rheolaidd yn cael eu cynnal i sicrhau'r arfer hwn. | diagnostig meddygol | uwchsain sydd ar ôl fel sy'n ofynnol gan WHTM 01-05 | | |

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):** **Dr Sandra Wilkins**

**Teitl swydd:** **Prif Ddeintydd**

**Dyddiad:** **24/07/2019**